

Cofnod o gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
29/3/2017
9:30-11:00
Ystafell Gynhadledd, Tŷ Hywel

Yn bresennol	Aelod
Efa Gruffudd Jones	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Rhodri Llwyd Morgan	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Lowri Hughes	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Cath Baldwin	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Owain Gruffydd	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Alun Davies AC	Gweinidog y Gymraeg
Bethan Webb	Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran y Gymraeg
[]	Is-adran y Gymraeg
[]	Is-adran y Gymraeg
[]	Is-adran y Gymraeg (Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau:

Sali Burns
Hywel Jones

1. Croeso a chytuno cofnodion y cyfarfod diwethaf

Croesawodd y Gweinidog bawb i'r cyfarfod, gan nodi mai dyma gyfarfod olaf y grŵp presennol fel aelodau. Cyfeiriodd at gofnodion y cyfarfod blaenorol, gan holi a oedd pawb yn hapus eu bod yn gofnod cywir.

2. Diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Rhoddodd swyddog gyflwyniad ynghylch y cyfeiriad gyda'r Bil.

Yn dilyn y cyflwyniad, diolchodd y Gweinidog am y cyflwyniad a holi am argraffiadau'r aelodau. Agorodd Aelod drwy nodi fod yr ymwneud â chyrff dan y Mesur yn newydd. Ychwanegodd fod angen edrych ar hybu a hyrwyddo hefyd, a bod bwlbh o ran Cymraeg yn y gweithle oherwydd diffyg Cod Ymarfer. Dywedodd fod cyrff yn ymateb i'r safonau, ond bod angen cyflymu'r broses. Serch hynny, nid oedd y Comisiynydd yn gwneud gwaith hybu a hyrwyddo fel y byddai'r Aelod yn ei ddiffinio. Nododd fod angen sortio'r Ddeddf yn gyflym er mwyn sortio hybu.

Dywedodd Aelod arall mai gweithredu yw'r broblem yn fwy na'r ddeddfwriaeth, ond cytunodd mai'r hyn sydd wir angen ei sortio yw hybu a hyrwyddo. Cytunodd y Gweinidog fod angen sortio hybu, gan holi pam felly bo'r Mesur yn ffocysu gymaint ar reoleiddio?

Dywedodd Aelod fod y Comisiynydd yn dueddol o fod yn hyd braich, gan ddefnyddio ieithwedd 'pell-i-ffwrdd'. Fe'i sefydlwyd i reoleiddio ond y safonau ddim yn eu lle. Ychwanegodd swyddog mai'r broses ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio oedd i gyfrif am hyn – 6 mis o ymgynghori a 6 mis ar ôl cyflwyno hysbysiad. Ychwanegodd swyddog fod modd newid hynny yn y Ddeddf arfaethedig.

Mynegodd Aelod y byddai'r Safonau'n helpu'r cyhoedd i wybod beth i'w ddisgwyl gan gyrff. Nododd fod hybu a rheoleiddio'n bethau gwahanol, a bod angen endid ar wahân gydag arbenigwyr mewn e.e. theori 'nudge', a fyddai'n fwy rhydd na bod o fewn y gyfundrefn i weithredu gwaith hybu.

Nododd swyddog fod y ddeddfwriaeth yn ymwneud â hawliau, ond bod nifer o'r safonau presennol ddim yn creu hawliau, ond yn hytrach yn gosod dyletswyddau ar gorff. Dywedodd Aelod fod nifer o safonau'n arwain at gyfieithu dogfennau nad oes unrhyw un yn eu darllen, a bod pethau pwysicach na hynny. Dadleuodd Aelod arall bod stwff mewnol yn bwysig o ran rhoi statws i'r iaith. Cytunodd Aelod arall â'r datganiad hwn.

Dywedodd Aelod fod Safonau'n gam ymlaen oherwydd y gweithredu a'r ffaith eu bod yn cael eu cymryd o ddifri. Y broblem yw fod blaenoriaethau wyneb i waered.

Holodd y Gweinidog a oes angen corff arall i ymgymryd â gwaith hybu? Atebodd Aelod ei fod yn rhy gynnar i asesu effaith Comisiynydd y Gymraeg fel rheoleiddiwr. Ychwanegodd fod rôl hybu allweddol gan Lywodraeth Cymru o ran buddsoddi, hyrwyddo, defnyddio ac arloesi – bydd cyrff eraill yn dilyn ei hesiampl.

Mynegodd Aelod fod bwloch wedi bod ers Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a'i bod yn bosibl bod angen endid arall i hybu a chreu ymgyrch genedlaethol. Ychwanegodd Aelod arall fod angen symleiddio'r maes, a bod pethau y gallai Cod Ymarfer eu cyflawni o ran gweithredu safonau polisi.

3. Rhaglen newydd i hybu'r Gymraeg

Rhoddodd swyddog ddiweddariad ar sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwario'r £2 filiwn o'r cytundeb ar y gyllideb gyda Phlaid Cymru yn ystod y flwyddyn. Nododd fod Llywodraeth Cymru am arwain ar hyrwyddo yn y tymor byr. Ychwanegodd fod bwloch yn hyn o beth, a bod rôl felly i'r llywodraeth gael negeseuon clir a chenedlaethol. Soniodd am y bwriad i secondio aelod o staff i is-adran y Gymraeg er mwyn datblygu polisïau hybu a throsglwyddo. Soniodd hefyd am y Siarter Iaith a'r posibilrwydd o'i ymestyn i'r sector Saesneg; y Pecyn Busnes; y Llinell Gymorth i fusnesau; Dydd Miwsig Cymru; a'r angen i gysoni negeseuon.

Nododd Aelod fod Dydd Miwsig Cymru yn beth da, ond bod angen bod yn glir i ba naratif mae'n perthyn. Ychwanegodd Aelod arall fod angen calendr o ddigwyddiadau.

Diolchodd y Gweinidog i'r aelodau am eu gwasanaeth fel aelodau o'r Cyngor Partneriaeth ac am eu gwaith dros y blynyddoedd. Nododd ei fod yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod y maes ac yn ddiolchgar iawn am eu cyfraniadau a'u cyngor.

Ymadawodd y Gweinidog.

4. Diweddariad ar Strategaeth y Gymraeg

Am fod amser yn mynd yn brin, rhoddodd swyddog amlinelliad o'r sefyllfa diweddaraf gyda'r strategaeth, gan esbonio bod i'r ddogfen 3 adran erbyn hyn, yn hytrach na'r 6 adran yn y ddogfen ymgynghori. Bellach mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar Ddefnydd, a hynny yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nododd hefyd fod rhagor o bwyslais ar yr economi, o ran hybu'r Gymraeg yn y gweithle ac o ran creu amodau cadarnhaol. Ychwanegodd er mai sgerbwdd yn unig oedd y ddogfen ymgynghori, fod yr ymgynghoriad wedi bod yn ddefnyddiol o ran clustnodi pa rannau o'r strategaeth oedd angen rhagor o gig ar yr asgwrn. Nododd fod rhan 1 a 2 y strategaeth yn dilyn dull cwrs bywyd, a rhan 3 yn ymdrin â gosod yr amodau a'r seilwaith.

Dywedodd Aelod fod hyn yn swnio'n rhesymegol a chllir. Holodd Aelod arall am amserlen lansio'r strategaeth. Atebodd swyddog mai'r bwriad oedd lansio yn yr haf.

5. Unrhyw fater arall

Nododd Aelod y byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth am y prosiect addysg, pwy bynnag fyddai aelodaeth nesaf y Cyngor.

Holodd Aelod arall beth oedd yr amserlen ar gyfer y Ddeddf. Atebodd swyddog mai'r cam cynaf oedd cyhoeddi Papur Gwyn erbyn yr haf.